



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

12 Mawrth 2021

9:00 yb – 12:00 yp

Trwy gyfrwng MS Teams

Yn bresennol: Teresa Owen (Cadeirydd), Morwena Edwards, Chris Stockport, Cyng Bobby Feeley, Cyng Christine Jones (mynychu tan 10:40 yb), Cyng Joan Lowe (JLo), Cyng Louise Emery (mynychu tan 11:45 yb), Cyng Dafydd Meurig, Cyng Llinos Medi Huws (mynychu tan 10:00 yb), Dr Lowri Brown, Ffion Johnstone, Fon Roberts (mynychu tan 10:00 yb), Helen Corcoran, Jenny Williams, John Gallanders (mynychu tan 10:40 yb), John Gladston, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling (mynychu tan 11 yb), Nicola Stubbins, Paul Scott, Rob Smith, Sam Parry, (mynychu tan 10:10 yb), Steve Gadd (mynychu ar gyfer eitem 8 yn unig ar y rhaglen) names here (use tab key to indent new lines or paragraphs)

Ymddiheuriadau: Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Judith Greenhalgh, Estelle Hitchon, Lucy Reid, Mark Wilkinson, Bethan E Jones, Shan Lloyd Williams, Roma Hooper

Hefyd yn bresennol: Imogen Blood, Ymgynghorydd, Practice Solutions Limited (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Rhian Allen, Ymgynghorydd, Practice Solutions Limited (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Masnachol, Canolfan Cydweithredol Cymru (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Maria Bell, CLILC (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Catrin Perry, Tîm Cydweithio Rhanbarthol (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Carol Dale, Tîm Cydweithio Rhanbarthol (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Alan Hughes, Rheolwr Rhaglen WCCIS Gogledd Cymru (eitem 10 ar y rhaglen)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Hysbyswyd y Bwrdd am ymddiswyddiad Catherine Elaine Jones a diolchodd y cadeirydd i CEJ am ei chyfraniad i'r BPRhGC.

Gan fod tymor mewn swydd y Cadeirydd yn dod i ben heddiw, manteisiodd TO ar y cyfle i ddiolch i'r bwrdd am eu cydweithrediad, ymrwymiad a chyflawniadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd TO yn dymuno'n dda i'r bwrdd gyda'r gwaith sy'n parhau ar draws Gogledd Cymru a dymunodd y gorau i MWim yn ei rôl fel y cadeirydd newydd.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.02.2021 yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

- Cyfleoedd cyllid yn y dyfodol i gynrychiolwyr BPRh y Trydydd Sector – darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn BPRhGC mis Ebrill.
- FJ i ddarparu mwy o wybodaeth ar y nifer nad ydynt yn derbyn y brechlyn – Dywedodd FJ fod y mater wedi'i godi'n genedlaethol ac roedd y gwaith yn parhau – FJ i roi diweddariad yn BPRhGC Ebrill.
- NS/BEJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y canlyniad – ICF – Datgan Cysylltiad:

Llety diogel i Blant gydag anghenion cymhleth a dwys -

Dywedodd NS fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau derbyn datganiad o ddiddordeb ac wedi hysbysu yn sgil y nifer o ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd, bydd angen mwy o amser er mwyn gwneud penderfyniad.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw cwblhau'r broses yn yr wythnosau nesaf.

Eitem 3 ar y rhaglen – dywedodd MW fod staff yn parhau i aros i gael eu brechu fel rhan o'r ymarfer cwblhau heb lwybr clir ar gyfer staff gofal cymdeithasol sydd heb gael brechlyn oherwydd eu bod yn aelodau o staff newydd/wedi gwrthod brechlyn yn flaenorol. Nid yw staff gofal cymdeithasol yn cael blaenoriaeth, er bod cynlluniau ad hoc yn bodoli mewn ardaloedd gwahanol.

Cytunodd FJ i godi'r pryder hwn yn y cyfarfod mewnol gyda phartneriaid y prynhawn yma.

Cam Gweithredu

- FJ i fynd â'r pryder ynglŷn â'r staff sy'n parhau i aros i gael eu brechu fel rhan o'r ymarfer cwblhau i'r Bwrdd Brechlyn

3 Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Gronfa Her yr Economi Sylfaenol (CHES)

Rhoddodd JW drosolwg o gynnydd y gwaith o fewn y cynnig CHES. Yn y BPRhGC ym mis Tachwedd 2020 roedd prosiect CHES wedi derbyn cyngor gan y bwrdd i ganolbwyntio ar weddill y cyfnod a ariannwyd yn datblygu model busnes ar gyfer asiantaeth staffio dielw.

Roedd JW yn nodi'r heriau a wynebwyd yn denu, recriwtio a chael gweithlu cymwys o fewn gwaith y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ysgogi ac adrodd arno'n rheolaidd i Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (BGGC). Mae'r model yn ymwneud â chysondeb, ansawdd a datblygu'r gweithlu, cyn arbedion costau. Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu'r pwyntiau o bwysau / yr angen i gyflymu gofal yn nes at y cartref, a'r cyfle i atynnu pobl newydd i'r sector.

Yn dilyn ymgysylltiad ac ymgynghori sylweddol, argymhelliad terfynol bod crynodeb model busnes prosiect CHES GC yn cael ei gyflwyno i BPRhGC.

Mae Practice Solutions (PS) wedi eu comisiynu i ddatblygu a chynhyrchu achos busnes a darparodd RA drosolwg o'r model:

- Menter gymdeithasol dielw, moesegol – mae tystiolaeth gan ddarparwyr yn yr arolwg yn manylu gwariant sylweddol ar asiantaethau.
- Tîm cyflogedig cyson bach – fyddai'n cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol a llogi allan i ddarparwyr lleol mewn ardaloedd lleol, dod i adnabod ardaloedd a chwsmeriaid unigol.
- Anelu i ddod o hyd i atebion cynaliadwy; nid yw'n amharu ar weithlu presennol, ynparu unigolion yn ofalus gyda lleoliadau gofal, darparu cefnogaeth a mentora.
- Ehangu ac uwchsgilio'r gronfa – cyfleoedd da ar gyfer newydd-ddyfodiaid gyda llwybr cynnydd da
- Lleoliad lleol; dull 'datblygu eich staff eich hun' – anghenion diwylliannol a ieithyddol gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r rhanbarth; lleihau symudiad gweithwyr i leihau lledaenu haint.
- Llywodraethu amlasiantaeth

Mae sgopio cychwynnol timau ardal yn awgrymu posibilrwydd o sgopio o amgylch 11 tîm ar draws yr ardal, a weinyddir gan grŵp llywodraethu amlasiantaeth/budd-ddeiliad.

JW yn nodi fod ystyriaethau terfynol yn cynnwys:

- Mwy o ymgysylltu gyda chwsmeriaid – gweithio gydag asiantaethau lleol sydd eisoes yn cyflenwi staff i'r sector i sicrhau staff o ansawdd cyson ar gyfer y dyfodol. Mwy o ymgysylltu a barn ar fodel arfaethedig gyda darparwyr a darpariaeth asiantaeth a thrafod ffordd wahanol o weithio.
- Data gwell ar ddefnydd asiantaeth
- Rhagdybiaeth prawf pellach mewn model
- Model peilot a thrafod y ffordd orau i wneud cynnydd – i ddeall cyd-destun lleol
- Cyllid – archwilio costau ac incwm ymhellach.
- Nodi 2 neu 3 ardal yng Ngogledd Cymru
- Lefel strwythur rhanbarthol a ddymunir

Diolchodd NA i JW a'r tîm am gyflwyniad llawn gwybodaeth a chadarnhaodd ddiddordeb mewn bod yn rhan o beilot yn ardal y Dwyrain, yn archwilio'r heriau o fewn y Dwyrain o ran argaeledd nyrsys mewn cartrefi nyrsio a byddai angen archwilio refeniw.

Roedd MWim yn nodi pryderon yn ymwneud â thâl staff cartref gofal a'r cynnig i beidio disgwyl potsian staff o'r sector. Hefyd, pryder staff nyrsio o fewn cartrefi gofal, sydd angen cofrestru a chymhwyster a sut y byddai'r model yn denu staff nyrsio o ystyried y dewisiadau deniadol niferus sydd hefyd ar gael iddyn nhw ac am y rhesymau hyn roedd MWim yn nodi nad oedd yn cytuno nac yn gallu cefnogi'r model.

Roedd IB yn cytuno gydag MWim ar y ddadl cyflog byw. Roedd y mater tâl a chynnig tâl Llywodraeth Cymru yn sylweddol. Mae'r model yn parhau'n berthnasol gan gymryd i ystyriaeth yr isafswm cyflog byw. Hefyd mewn perthynas â'r pryder nyrsio, roedd trafodaethau wedi eu cynnal yn archwilio'r tasgau cysylltiedig â iechyd oedd yn ofynnol a sicrhau cydraddoldeb ar draws yr agenda i fandiau gwaith GIG ar gyfer staff sy'n ymgymryd â thasgau clinigol. Bydd goruchwyliwr yn goruchwyllo staff llywodraethu clinigol a gofal a nodwyd ac wedi eu huwchgilio i ymgymryd â'r tasgau hyn.

Diolchodd ME am y cyflwyniad, fodd bynnag, nodwyd rhywfaint o bryder yn ymwneud ag ardal y Gorllewin yn benodol. Y prif bryder yw'r strwythur rhanbarthol; nid yw natur ddaearyddol, natur wledig a materion ieithyddol y Gorllewin wedi derbyn ystyriaeth ddigonol. Roedd ME yn gwahoddi y tîm CHES i gyfrannu at drafodaethau lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Roedd JW yn ail-gadarnhau bod y prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd y gweithlu, cefnogaeth i'r gweithlu, rhoi sylw i heriau recriwtio, modelau gofal i sicrhau y gall darparwyr fod yn gynaliadwy, i sicrhau bod systemau o fewn y sector cyfan yn gadarn. Mae Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur

Gwyn a'r gwaith ar y Cytundeb Tâl hefyd yn mynd law yn llaw gyda'r prosiect hwn.

Roedd RS hefyd yn nodi cefnogaeth i'r cam cyntaf a byddai hefyd yn cefnogi peilot yn y Dwyrain, fodd bynnag, byddai angen deall y cysyniad yn fwy manwl a'r goblygiadau i'r tîm lleol.

Roedd y Cyng LE yn cytuno gyda phwynt MWim ar dâl yn fater moesegol sylweddol ac yn cynnig bod y sector preifat yn cyfrannu'n llawn at barhau gyda pheilot i sicrhau nad yw'r model arfaethedig yn amharu ar staff presennol o fewn y sector annibynnol.

Roedd NS yn cadarnhau ei bod yn cefnogi'r cynnig, gyda materion sylweddol yn cael eu trafod ar lefel genedlaethol gan gymryd cryn amser i'w datrys. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar faterion a gyflwynwyd heddiw a chytunir ar gynnig rhanbarthol a darparu yn lleol.

Roedd JGal yn holi am gyfiawnhad costau uchel ar gyfer rhoi'r sylfaen ar waith, ac yn meddwl yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater a oedd haen arall yn cael ei gyflwyno. Roedd JGal hefyd yn codi'r mater cymorth gwladwriaethol ac amhariad ar y farchnad a pha un a oedd hyn yn risg.

Roedd y Cyng CJ hefyd yn nodi cefnogi'r cynnig a dylid gwneud popeth i annog pobl i rolau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Roedd DM hefyd yn nodi ei fod yn cefnogi'r model, er yn ansicr o ran sut y byddai'r model yn datrys y mater o ddiffyg gweithwyr yn y sector.

Roedd JW yn crynhoi'r drafodaeth gan nodi bod y gwaith yn dod o fewn sbectrwm cyfan gwaith arall oedd yn parhau yn y BGGC. Mae'r cynnig penodol hwn yn anelu i fynd i'r afael â system nad yw'n gweithio i bawb ar hyn o bryd; sector bregus gan gynnwys mater sylweddol y cytundeb tâl. Mae'r cynnig uchelgeisiol hwn yn ymwneud â'r gweithlu sy'n ychwanegiad at dimau craidd ar draws y sector, a bydd trafodaethau yn parhau gyda BGGC i dynhau'r llywodraethu a chynrychiolwyr. Roedd JW yn cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth lawn ar hyn o bryd, ac anogwyd gan gefnogaeth cydweithwyr ar gyfer prosiectau peilot yn y dyfodol.

Roedd TO yn diolch i JW a chydweithwyr CHES am y cyflwyniad cynhwysfawr.

4 Diweddariad Grŵp lechyd a Gofal (GI&G)

(SAC yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ar y rhaglen)

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad byr ar lafar gan NS ar y GI&G. Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd fel is-grŵp i'r Grwp Cydgordio Strategol. Mae'r prif feysydd

gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall data, amrywiad rhanbarthol a'r pwysau yn y systemau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r grŵp yn parhau i ganolbwyntio ar y sefyllfa Covid tra mae achosion yn parhau i godi yn y gymuned/ysbyty/lleoliadau gofal. Bydd symud i'r cam adfer yn cael ei weithredu yn y dyfodol.

5 Datganiad o Ddiddordeb BPRh:

Cynrychiolwyr Gofalwyr

Yn absenoldeb aelodau panel cyfoedion rhoddodd TO drosolwg o'r argymhellion o fewn yr adroddiad ac roedd BPRhGC yn cytuno i'r ddau ymgeisydd â'r sgôr uchaf gael cynnig seddi ar y BPRh o Ebrill 2021 am y tymor o ddwy flynedd:

- Delyth Lloyd Williams
- Barry Argent

Roedd Estelle Hitchon yn garedig wedi cynnig cefnogaeth i alluogi cynrychiolwyr i setlo i mewn yn y cyfarfodydd a deall gwaith y Bwrdd.

Cynrychiolwyr Sefydliad Trydydd Sector

Roedd MW a Cyng BF wedi rhoi gorolwg o banel cyfoedion datganiadau o ddiddordeb sefydliad Trydydd Sector. Roedd 4 datganiad o ddiddordeb wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau.

Roedd BPRhGC yn cytuno bod

- Y ddau ymgeisydd gyda'r sgôr uchaf yn cael cynnig seddi (1 sedd ac 1 dirprwy) ar y BPRh.
- Ymgeisydd â'r sgôr uchaf i gael cynnig sedd ar y BPRhGC yn dechrau o Ebrill 2021 – Meinir Williams-Jones (Barnardos)
- Ymgeisydd gyda'r ail sgôr uchaf i gael cynnig rôl dirprwy i Roma Hooper a'r ymgeisydd llwyddiannus heddiw pan nad ydynt yn gallu mynychu, gan ddarparu profiad i'r ymgeisydd fynychu'r BPRh. Dylai Roma Hooper ac ymgeisydd llwyddiannus hefyd drafod materion BPRh gyda dirprwy yn rheolaidd – Sian Tomos (GISDA)
- Pan fydd tymor presennol Roma Hooper yn dod i ben, bydd y dirprwy yn cael cynnig sedd ar BPRhGC o fis Rhagfyr 2021 am dymor o ddwy flynedd.

Roedd John Gallanders yn garedig wedi cynnig cefnogaeth i gynrychiolydd newydd y Trydydd Sector i setlo i mewn yn y cyfarfodydd a deall gwaith y Bwrdd.

6 Y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF)

Sefyllfa Rhaglen CGC BPRhGG 2020-21 Ch3

Roedd y bwrdd wedi derbyn trosolwg byr gan NA ar raglenni cyllid 2020/21 a reolir drwy CGC yn C3:

- Cynllun Buddsoddi Refeniw (RIP)
- Cynllun Buddsoddi Cyfalaf (CIP)
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS)
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
- Cynllun Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (TIP)
- Cynllun Rhyddhau Covid (CDP)
- Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)

Rhai uchafbwyntiau i gynnwys:

Rhaglen Refeniw

Roedd gwariant ar ddiwedd Ch3 yn £11.86miliwn, 62% o ddyraniad blynyddol. Rhagwelir gwariant llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y 9 mis cyntaf o'r flwyddyn, roedd £3.17miliwn wedi'i wario'n uniongyrchol yn cefnogi gofawyr a £1.55miliwn o fuddsoddiad wedi mynd tuag at brosiectau trydydd sector. Roedd gan 98 o'r 120 prosiect statws BRAG gwyrdd. Roedd 3 o'r 120 cynllun yn y rhaglen wedi oedi oherwydd Covid a chytunwyd ar gynlluniau amgen ar gyfer y cyllid gan nad yw'n dal yn ddiogel symud ymlaen/ailagor.

Rhaglen Gyfalaf

Mae'r arian cyfalaf ar gyfer 2020/21 yn £9.41miliwn gyda gwariant yn Ch3 £4.13miliwn (44%). Mae yna 17 prif gynllun cyfalaf a 53 o gynlluniau cyfalaf yn ôl disgrisiwn, 35 yn gynlluniau Covid-19. Mae adroddiad statws misol yn cael ei gwblhau i bob Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal (BGIA) fel bod cynnydd a gwariant hyd yma yn cael eu monitro'n ofalus ac unrhyw lithriad yn cael ei nodi'n fuan. Mae gwariant llawn arian 2020/21 yn cael ei ragamcanu ar gyfer diwedd Mawrth 2021.

Mae gwariant llawn yn cael ei ragamcanu ar gyfer Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS), System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), Peilot Ymyrraeth Therapiwtig a ffrydiau cyllid D2RA

Roedd BPRhGC yn cytuno i nodi'r argymhellion:

- I nodi'r sefyllfa Ch3 2020/21 o ffrydiau cyllid CGI.
- Cytuno ar Ch3 2020/21 adroddiad ar gyfer ffrydiau cyllid CGI.

Cynllun Buddsoddiad Refeniw CGI 2021/22

Derbyniodd y bwrdd amlinelliad byr gan NA ar Raglen Buddsoddiad Refeniw CGI 2021/22 sydd i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021 ar gyfer adolygiad lefel uchel i sicrhau:

- (1) bod cynlluniau yn diwallu'r meini prawf CGI a
- (2) bod gwariant yn unol â dyraniadau i flaenoriaethu meysydd.

Mae cyfanswm cyllid ar gyfer y Rhaglen yn £19.6miliwn, sy'n union yr un fath â chyllid 2019/20. Mae £240k yn cael ei ddyrannu i seilwaith BPRh gyda £18.92miliwn wedi'i rannu rhwng 3 maes BGI.

Mae yna 125 prosiect yn y Rhaglen 2021/22; mae 108 wedi trosglwyddo o 2020/21 i ail flwyddyn ac mae yna 17 prosiect newydd ar gyfer 2021/22.

24 prosiect fydd yn cael eu haddasu yn ystod 2020/21 i sicrhau y darperir yn ddiogel a chadw pellter cymdeithasol yn parhau drwy addasu darpariaeth drwy 2021/22

Roedd BPRhGC yn cytuno i nodi'r argymhellion:

- I nodi gwerth ac amrywiaeth y cynlluniau o fewn y Cynllun Buddsoddi Refeniw CGI
- I gymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi Refeniw CGI

7 Cyllidebau Cyfun Cartrefi Gofal Rhanbarthol (CCCGRh)

Rhoddodd NS ddiweddariad i BRhGC ar Gyllidebau Cyfun Cartrefi Gofal Rhanbarthol a rhannu sylwadau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a chanfyddiadau'r adroddiad a gwblhawyd gan KPMG ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- Mae Cyllideb Gyfun Pobl Hyn heb berygl wedi bodoli ers Ebrill 2019.

- Roedd trefniadau a phrosesau ar waith gyda chytundeb Adran 33 wedi'i lofnodi gan 6 ALI a BI gyda thrafodiadau ariannol yn ymwneud â llety cartrefi gofal a wnaed i CSDd, yr awdurdod cynnal ers 1.4.2019.
- Roedd y costau cynnal £20k blynyddol wedi'i dalu o danwariant CGI yn 2019-20. Bydd partneriaid angen gwneud trefniadau i ariannu'r gost hon yn 2020-21 ac am gyfnod y Gyllideb Gyfun, fel atodiad i gytundeb A 33.
- Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod yn ymwybodol o'r trefniant cyllideb gyfun yn ystod adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn CSDd a CBSC yn Awst 2020. Mae'r arsylwadau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru nawr wedi derbyn sylw drwy brosesau mewnol CSDd a CBSC.
- Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu KPMG i gynnal gwerthusiad o'r trefniant cyllideb gyfun ar gyfer llety cartrefi gofal o fewn pob rhanbarth i ganolbwyntio ar sefydlu a chynnal Cyllideb Gyfun Pobl Hyn Cartref Gofal rhanbarthol, ble roedd pob rhanbarth wedi'i asesu o ran cynnydd gweithredu'r trefniadau cyllideb gyfun yn unol â'r rheoliadau.

Yn dilyn cyfweiliadau KPMG gyda chydweithwyr BPRh roedd canfyddiadau'r gwerthusiad angen cynlluniau gwella gan gadeiryddion BPRh i roi sylw i'r 9 argymhelliad o fewn yr adroddiad.

Hysbysodd NS am y camau nesaf:

- Mae'r adolygiad yn cael ei ystyried yn deg ac mae yna ofynion statudol i'w cymryd i ystyriaeth.
- Y bwriad yw dadansoddi'r data a gasglwyd gan yr arweinwyr cyllid, ar wariant lleoliad cartref gofal, archwilio o ran budd a'r galw ar y gweithlu.

Mae'r ymarfer hwn yn amserol o ystyried y gwaith sy'n ofynnol ar yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth (AAP) a'r Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad (ASM).

- Pob partner i archwilio eu data i alluogi'r budd, nid yn unig i CCCGRh ond hefyd i lywio a datblygu rhannau eraill o'r integreiddio.

Diolchodd ME i NS am ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod y pandemig, gan gredu bod yna gyfoeth o wybodaeth i'w chymharu yma fydd yn bwydo i'r MSR yn y sector cartref gofal.

Roedd BPRhGC yn cytuno gyda'r argymhellion:

- I nodi'r cynnydd a'r arian a drosglwyddwyd ers daeth y gyllideb gyfun i rym.
- Aelodau BPRh i ystyried unrhyw gamau i'w cymryd yn dilyn sylwadau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd yr adroddiadau archwilio yn benodol i CSDd a CBSC ac maent wedi derbyn sylw drwy broses fewnol. Mae angen galw ar BPRhGC ar y mater hwn yn unig.

- Aelodau BPRh i ystyried cynnwys adroddiad KPMG a datblygu cynllun gwella i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd cadeirydd BPRhGC wedi llunio ymateb i Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG. Bydd y llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru a'r ymateb, ar ôl ei dderbyn, yn cael ei ddosbarthu i aelodau BPRhGC.

NS i gyfarfod gyda MWim i ddeall yr ymateb ar y CCCGRh.

Camau Gweithredu:

- Dosbarthu llythyr CC (a anfonwyd i LIC) a'r ymateb ar ôl ei dderbyn - RW
- NS i roi diweddariad i MWim ynglŷn â CC

8 Ymateb drafft terfynol ar Ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Chwefror, cytunwyd i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i lunio'r ymateb drafft ar Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

Roedd aelodau canlynol BPRhGC wedi rhoi eu henwau ymlaen i fod ar y grŵp Tasg a Gorffen: Mary Wimbury (Is-Gadeirydd); Cyng Bobby Feeley; Cyng Dafydd Meurig; Morwena Edwards; Bethan Jones Edwards a Kamala Williams yn bresennol o BIPBC

Roedd dau gyfarfod wedi eu cynnal ac mae'r fersiwn drafft terfynol yn cael ei gyflwyno heddiw i BPRhGC ei gymeradwyo. Hefyd, gofynnir i aelodau BPRhGC nodi:

1. Y camau a gymerwyd a'r ymateb arfaethedig y cytunwyd gan y grŵp tasg a gorffen.
2. Unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'w codi gan aelodau ehangach BPRhGC yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2021.
3. Fersiwn terfynol a gymeradwywyd i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn dyddiad cau y cyfnod ymgynghori ar 6 Ebrill 2021.

4. Fersiwn terfynol o'r ymateb i gael ei rannu gyda Bwrdd Arweiniad Rhanbarthol Gogledd Cymru fel y Bwrdd mae BPRhGC yn adrodd iddo.
5. Sefydliadau unigol BPRhGC i gymryd cynnwys ymateb BPRhGC i ystyriaeth wrth lunio ymatebion unrhyw sefydliad unigol.

Roedd y grŵp Tasg a Gorffen yn cydnabod y gwaith a wnaed gan BJE ar gasglu barn a safbwyntiau gwahanol gydweithwyr i'r ymateb.

Oherwydd natur ranbarthol BPRhGC, hefyd awgrymwyd y dylid cynnwys llythyr gyda'r ymateb i Lywodraeth Cymru, gan bwysleisio pwyntiau troswaol allweddol o'r manylion o fewn yr ymateb:

- Y byddai'r newidiadau arfaethedig yn ychwanegu at gymhlethdod yn hytrach na symleiddio'r system a threfniadau.
- Mae rhai atebion yn cynnig camau cenedlaethol i ddatrys rhai materion Cymru gyfan yn cael eu croesawu e.e. y cytundeb tâl
- Mae BPRhGC yn credu bod y penderfyniadau gorau i'r unigolyn yn cael eu gwneud yn lleol a bod adnoddau a threfniadau atebolrwydd angen bod ar waith.
- Credu bod BPRhGC wedi perfformio'n dda yn erbyn ei ofynion statudol. Dim yn cytuno y dylai BPRhGC gael ei newid i endid cyfreithiol
- Patrwm daearyddol BPRhGC ar draws 6 ALI ac un BI mawr gydag is-ardaloedd yn cael eu creu er mwyn cael llais mwy lleol.
- Nid yw'r Gymraeg yn amlwg yn y WP a'r angen i ystyried ymhellach pa gamau sydd eu hangen i wella'r darpariaethau hyn ar gyfer ein poblogaeth.

Diolchodd y cadeirydd i aelod o'r is-grŵp Tasg a Gorffen am eu gwaith ar yr ymateb i'r Papur Gwyn ac roedd yn cynnig rhoi 7 diwrnod arall i'r aelodau BPRh i anfon unrhyw sylwadau pellach.

Camau Gweithredu:

- ME/MWim i baratoi llythyr i'w yrru i LIC gyda'r ymateb
- Dosbarthu llythyr ac ymateb terfynol i BPRhGC

9 Cynllun Cyflenwi Cymru Iachach

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan NS am Gynlluniau Cyflenwi Rhaglenni Trawsnewid Cymru Iachach 2021/2022.

Roedd NS yn crynhoi o'r cyfarfod blaenorol, yn dilyn llawer o waith a thrafod, roedd Gogledd Cymru wedi trafod cyfanswm o £6.7miliwn o gyllid. Mae'r

wybodaeth a ddarparwyd heddiw yn hysbysu BPRhGC yn fanwl sut y bydd y rhaglen drawsnewid yn defnyddio'r cyllid yn 2021-22.

Yn dilyn trafodaeth gyda Noddwyr Rhaglen cytunwyd y byddai'r Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn cael blaenoriaeth gyda'r isafswm cyllid oedd ei angen, roedd y gwaith ar y costau gwerthuso wedi'i brisio i'r system gyda CST, LD a T4 MH yn cael swm llai.

Roedd NS, fel Noddwr Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn rhoi sicrwydd i weithio ar y cyd i ddarparu un rhaglen, yn cwblhau a chefnogi gwaith o fewn y 3 rhaglen trawsnewid arall yn y flwyddyn olaf.

Diolchodd TO i'r Noddwyr Rhaglen am yr adroddiad manwl hwn.

10 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ffrwd Waith Ddigidol

Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan AH am y ffrwd waith ddigidol. Hysbysodd AH yn anffodus oherwydd materion cyllid dan gontract gyda'r cyflenwr, roedd BIPBC yn cynnal trafodaeth gyda'r tîm cenedlaethol i fynd i'r afael â'r materion presennol a gyflwynir o fewn datblygiad meddalwedd i gefnogi integreiddio o fewn CRT yn y Gorllewin.

Roedd JW yn codi pryder gyda diffyg cynnydd ac yn gofyn pryd y byddai'r gorchymyn lleoli yn debyg o gael ei lofnodi.

Roedd Cyng BF yn amlygu pwysigrwydd y gwasanaeth a gynigir gan CRT ar draws y rhanbarth a pha un a oedd y mater yn gorchfygu, o ran cynnydd digidol Timau Adnoddau Cymunedol.

Nid oedd AH yn gallu cynnig ateb pendant, ond yn credu bod adolygiad achos busnes yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno drwy sianelau BCU ar hyn o bryd.

Roedd y cadeirydd yn cytuno i adrodd yn ôl ar bryderon a godwyd ac yn gwahodd Noddwr Rhaglen WCCIS i roi diweddariad, gan gynnwys amserlen yng nghyfarfod nesaf BPRhGC.

Cam Gweithredu

- TO i gysylltu gyda Arweinydd y Rhaglen Ddigidol ynglŷn â'r pryderon.

11 Gwasanaethau Lles Plant a Phobl Ifanc - Rhoi'r Fframwaith Cymorth Buan a Chefnogaeth Fanwl "NEST" ar waith fesul cam

Hysbysodd NS am lythyr Llywodraeth Cymru yn annog BPRh i ystyried gwirfoddoli i fod yn fabwysiadwr buan ar gyfer Fframwaith Cymorth Buan a Chefnogaeth Fanwl "NEST", a ddatblygir gan y Rhaglen Dros Blant a Phobl Ifanc.

Byddai'r gwaith hwn yn ychwanegol at ac yn ategu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ar y Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc a'r gwaith Comisiynydd Plant 'Dim Drws Anghywir'.

Ar y sail hwn roedd NS yn gofyn i BPRhGC ardystio i gadarnhau yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru am ddiddordeb Gogledd Cymru mewn mynegi datganiadau o ddiddordeb ar y cam hwn i wirfoddoli gael ei fabwysiadu'n fuan ar gyfer y rhaglen "NEST".

Roedd Cyng JL yn cefnogi'r cais, fodd bynnag, nodwyd pryder ar yr ymrwymiad gan holl bartneriaid a'r pwysau llwyth gwaith ychwanegol y byddai'r gwaith hwn yn ei olygu.

Roedd NS yn cadarnhau mai'r cais oedd datganiadau o ddiddordeb ar hyn o bryd, ac os bydd y sefyllfa yn newid yn sylweddol, byddai'n bosibl tynnu allan.

Roedd BPRhGC yn cytuno i NS hysbysu Llywodraeth Cymru am ddiddordeb Gogledd Cymru mewn gwirfoddoli i fod yn fabwysiadwr buan y rhaglen "NEST".

12 Cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc

Yn absenoldeb FJ, rhoddodd TO y wybodaeth ddiweddaraf ar gynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru. Roedd y cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc yn cael ei ddatblygu i nodi gofalwyr ifanc, gan nodi eu rôl bwysig a'r effaith y gall hyn ei gael ar eu bywyd/lles, codi ymwybyddiaeth am ofalwyr ifanc ar draws eu cymunedau lleol, eu cyfoedion a gweithwyr proffesiynol y gallant ddod i gysylltiad â nhw, fel meddygon teulu Nyrsys Ardal, Fferyllfeydd, Ysgolion/Addysg Bellach ac ati a helpu gofalwyr ifanc i gael mynediad i'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, gan gynnwys arwyddbostio i wasanaethau cynnal.

Diolchodd TO i FJ a KM am yr adroddiad ac roedd BPRhGC yn cytuno i nodi'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i baratoi ar gyfer lansio ar 16 Mawrth 2021.

13 Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2021-2022

Bydd y Rhaglen Waith yn ddefnyddiol i atgoffa am feysydd blaenoriaeth y cytunwyd gan y BPRh ac adroddiadau ffrydiau gwaith eraill a ddisgwylir ar raglenni BPRh yn y dyfodol am y 12 mis nesaf.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i nodi Rhaglen Waith 2021/2022.

14 Trosglwyddo rôl y cadeirydd i Mary Wimbury

Diolch i aelodau BPRhGC am eu cefnogaeth, anogaeth a chyfraniad dros y 2 flynedd ddiwethaf fel cadeirydd a hefyd diolchodd i'r is-gadeirydd am ddirprwyo yn ystod absenoldeb a dymunodd yn dda i MWim yn ei thymor fel cadeirydd.

Ar ran BPRhGC roedd MWim yn diolch yn fawr i TO am arwain BPRhGC yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd Cyng BF yn awgrymu cyfle ar gyfer datganiad i'r wasg i hysbysu preswylwyr Gogledd Cymru am waith BPRhGC a bydd swyddog cyfathrebu ac ymgysylltu BPRhGC yn trefnu hyn.

Enwebu is-gadeirydd – dywedodd NS fod un enwebiad wedi'i dderbyn ac roedd Cyng. BF wedi cytuno i dderbyn rôl is-gadeirydd.

15 Unrhyw Fater Arall – dim byd i'w adrodd

16 Cafodd y dogfennau canlynol eu darparu er gwybodaeth:

- Cyllid ar gyfer darparu llwybrau Rhyddhau ar gyfer Adfer ac Asesu (D2RA)
- Cronfa Rhaglen Drawsnewid Llywodraeth Cymru 2021-22 Canolbwynt Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella: Canllaw
- Llywodraeth Cymru yn cadarnhau dyraniad arian BILI i gefnogi gofalwyr di-dâl, 2021-22
- Llythyr yn cadarnhau Cyllid Ychwanegol ar gyfer Pwysau'r Gaeaf yng Ngogledd Cymru